Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Priory Talocher

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2021

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Priory Talocher

Mae Ysgol Priory Talocher yn ysgol arbennig annibynnol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac anghenion cysylltiedig. Mae wedi ei lleoli ar gyrion Trefynwy, ac yn cael ei gweinyddu gan Wasanaethau Addysg Priory, sydd â thros 30 o ysgolion a cholegau arbenigol ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r ysgol wedi ei chofrestru ar gyfer hyd at 60 o ddisgyblion rhwng 7 ac 19 oed. Mae 60 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Caiff mwyafrif y disgyblion eu lleoli gan awdurdodau lleol Cymru; caiff lleiafrif ohonynt eu lleoli gan awdurdodau lleol Lloegr. Mae tua chwarter y disgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol nac i ddadansoddi tueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod oherwydd anghenion unigol y disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2018. Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaeth yr ysgol newid perthnasol i'w chofrestriad i dderbyn disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistiaeth fel eu prif faes angen. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2020. Ers hynny, mae nifer y disgyblion ar y gofrestr wedi cynyddu o 49 i 60. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn cyflogi ei thîm therapiwtig ei hun, sy'n cynnwys therapydd lleferydd ac iaith, therapydd celf, cwnselydd, i gefnogi gwaith y tîm addysg.

Ym mis Gorffennaf 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gynnal ymweliad â ffocws o'r ysgol, gyda ffocws penodol ar allu'r ysgol i reoli ymddygiad disgyblion, ac effaith hyn ar yr ysgol yn darparu cwricwlwm priodol ar gyfer disgyblion. Ymwelodd arolygwyr â'r ysgol ar 6 Gorffennaf 2021 i asesu cydymffurfiad yr ysgol ag agweddau perthnasol ar safonau 1 a 3 Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Yn ystod yr arolygiad, aeth yr arolygwyr ar deithiau dysgu, cyfarfod â disgyblion a staff, a chraffu ar gofnodion a dogfennau.

## Cryfderau

At ei gilydd, ni ddaeth arolygwyr o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Yn ychwanegol, ni ddaeth arolygwyr o hyd i unrhyw feysydd diffyg cydymffurfio ychwanegol â safon 1 yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn yr arolygiad craidd ym mis Chwefror 2020. Ni chafodd yr agweddau hyn eu harolygu gan arolygwyr ar yr ymweliad hwn. Felly, mae'r meysydd diffyg cydymffurfio hyn yn parhau i fod ar waith.

- Mae gan yr ysgol brosesau a strwythurau addas ar gyfer diogelu disgyblion. Mae polisïau perthnasol yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae aelodau staff yn deall sut i adrodd am bryderon ynghylch diogelu pan fydd y rhain yn codi.
- Mae uwch staff yn monitro achosion ymddygiadol yn rheolaidd i olrhain amlder y rhain ar draws yr ysgol. Mae staff yn gwerthuso'r rhain yn briodol yn ôl sector, ac yn unol ag anghenion disgyblion unigol.
- Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i arweiniad a gafwyd yn ystod yr arolygiad craidd, ac wedi cryfhau trefniadau ar gyfer cofnodi a monitro achosion yn cynnwys ymyrraeth gorfforol.
- Mae'r unigolyn diogelu dynodedig yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ddiogelu, ac yn darparu arweinyddiaeth, arweiniad a chyngor clir i aelodau staff eraill.
- Mae'r dirprwy bennaeth sydd â chyfrifoldeb am gynnydd a chyrhaeddiad yn cysylltu'n rheolaidd â'r unigolyn diogelu dynodedig a'r swyddog ymgysylltu i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol y mae eu hymddygiad yn destun pryder. Mae hyn yn cynnwys addasu grwpiau disgyblion ac amserlenni, yn ogystal ag addasiadau i'r lefel staffio i gefnogi disgyblion.
- Mae ffeiliau achos disgyblion yn cynnwys dogfennau perthnasol i helpu staff i gefnogi a rheoli ymddygiadau heriol disgyblion, yn cynnwys asesiadau risg a chynlluniau rheoli ymddygiad unigol.
- Mae briffiau dyddiol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i staff rannu pryderon ynghylch diogelu a lles.
- Mae gan yr ysgol brosesau addas i fonitro presenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr, a nodi ymyriadau priodol.
- Caiff staff hyfforddiant addas i gefnogi rheoli ymddygiad a'u dealltwriaeth o dechnegau i leddfu sefyllfaoedd heriol.
- Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi adolygu agweddau allweddol ar ei darpariaeth i gefnogi anghenion emosiynol disgyblion nad ydynt yn barod i ddysgu pan fyddant yn ymuno â'r ysgol neu'n cyrraedd ar gyfer gwersi. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant perthnasol i gefnogi dealltwriaeth staff o ddulliau therapiwtig a dulliau sy'n ystyriol o drawma i wella'r addysgu a'r dysgu.
- Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei darpariaeth ar gyfer dysgu proffesiynol ar ystod yr anghenion sy'n wynebu disgyblion, er enghraifft ar rwystrau rhag cyfathrebu, ac awtistiaeth. Mae hyn yn helpu staff i nodi ble gallai fod angen mwy o fewnbwn arbenigol gan aelodau o dîm therapiwtig yr ysgol, neu ble mae'n briodol darparu cymorth eu hunain.
- Ar ddiwrnod yr arolygiad, ymgysylltodd disgyblion yn gwrtais â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Mewn gwersi, canolbwyntiodd disgyblion yn dda ar y tasgau a osodwyd.

**Meysydd i'w datblygu**

Dylai'r ysgol:

- Barhau i fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu mewn addysgu a'r cwricwlwm a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd.
- Darparu tîm sefydlog o athrawon a staff cymorth i sicrhau dulliau cyson o gefnogi disgyblion a rheoli ymddygiad ar draws yr ysgol.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennau a ddelir yn ffeiliau disgyblion yn gyflawn a chyfoes i sicrhau bod staff yn gallu mynd at yr holl wybodaeth berthnasol mewn un lle.
- Gwella ymhellach ansawdd y wybodaeth a ddarperir mewn cofnodion achosion yn cynnwys ymddygiad heriol ac ymyriadau corfforol.
- Ymestyn darpariaeth dulliau therapiwtig i gynnwys yr holl ddisgyblion yn yr ysgol, nid dim ond y rhai y mae eu datganiad yn amlinellu'r hawl i faes therapi penodol.
- Cryfhau rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol trwy sicrhau bod hyn yn amlinellu strategaeth glir i ddiwallu anghenion datblygu staff dros gyfnod, ac yn cynnwys manylion am gostau a goblygiadau eraill o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â hi.
- Gwella presenoldeb disgyblion oedran uwchradd.
- Gwella ansawdd ystafelloedd dosbarth a thu allan yr adeiladau ar draws yr ysgol i ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a deniadol ar gyfer yr holl ddisgyblion.
- Sicrhau bod gwybodaeth am ddiogelu ar gael i bobl sy'n ymweld â'r ysgol, a gwella pa mor weladwy yw arweiniad o gwmpas yr ysgol ar gyfer staff, ymwelwyr neu ddisgyblion ynglŷn â phwy y dylent gysylltu os bydd ganddynt bryderon.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Adeg yr arolygiad craidd, nododd arolygwyr, er bod yr ysgol yn bodloni pob un o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod ganddi bolisi cwricwlwm wedi ei amlinellu yn ysgrifenedig ac wedi ei gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i weithredu'n effeithiol [1(2)]
- Darparu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd sy'n adlewyrchu ei nodau a'i hethos [1(2)(f)]
- Sicrhau bod gwersi yn cael eu cynllunio'n dda, bod dulliau addysgu yn effeithiol a gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio; sicrhau bod amser dosbarth yn cael ei reoli'n ddoeth [1(3)(d)]

Ni chafodd yr agweddau hyn eu harolygu gan arolygwyr ar yr ymweliad hwn. Felly, mae'r meysydd diffyg cydymffurfio hyn yn parhau i fod ar waith.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio’n llawn â’r gofynion hyn, dylai’r ysgol fynd i’r afael â’r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr am yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/09/2021